



GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS



Prifysgol Cymru
University of Wales

CYNORTHWYDD CYNHYRCHU A GOLYGYDDOL – GWASG PRIFYSGOL CYMRU, CAERDYDD

Cyfeirnod y Swydd: 50186

Llawm Amser (35 awr, 1.0 CALI), Parhaol

Cyflog: o £18,000 y flwyddyn

Mae Gwasg Prifysgol Cymru (GPC) yng **Nghaerdydd** yn dymuno penodi Cynorthwydd Cynhyrchu a Golygyddol, i weithio yn yr Adran Gynhyrchu. Mae hwn yn gyfle prin i ymuno â phrif gyhoeddwr academiaidd Cymru, ac yn gyfnod cyffrous wrth baratoi am flwyddyn canmlwyddiant y Wasg, a rhoi cynlluniau twf strategol ar waith.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau rhyngbersonol rhagorol, hunan-gymhelliant, llygad am fanylder, a'r gallu i ddatrys problemau ar ei liwt ei hun.

Mae swydd y Cynorthwydd Cynhyrchu a Golygyddol yn rôl bwysig yn y Wasg er mwyn sicrhau bod pob cynnyrch yn cael ei gwblhau ar amser ac o fewn cyllideb, gan gwrdd â safonau cynhyrchu a golygyddol uchel. Bydd y Cynorthwydd Cynhyrchu a Golygyddol yn cydweithio'n agos â holl aelodau tîm GPC; Comisiynu, Golygyddol, Gwerthiant a Marchnata, a Chyllid, a bydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Cynhyrchu i oruchwylio cynhyrchu llyfrau a chyfnodolion print ac electronig, o drosglwyddo llawysgrif i gyflenwi stoc i ddsbarthwyr.

Gweler y Disgrifiad Swydd am rhagor o fanylion, ynghyd â rhestr o feini prawf hanfodol a dymunol 'Manyleb yr Unigolyn'.

Swydd **barhaol lawm amser** yw hon (35 awr yr wythnos).

Cyflog cychwynnol y swydd yw **£18,000** gyda lwfans gwyliau hael o **25** diwrnod yn flynyddol (ynghyd ag 8 gŵyl banc a 7 diwrnod cyffredinol/pan fo'r Brifysgol ar gau), yn ogystal â darpariaeth cynllun pensiwn y Brifysgol.

SUT I YMGEISIO

Gellir ymgeisio am y swydd drwy anfon llythyr cyflwyniadol a Curriculum Vitae. Dylai ymgeiswyr egluro yn y llythyr sut maen nhw'n bodloni'r gofynion hanfodol a dymunol a restrir ym 'Manyleb yr Unigolyn'.

Dylid anfon pob cais drwy e-bost at e.page@pcydds.ac.uk. Am sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch gyda Rheolwr Cynhyrchu'r Wasg, Steven Goundrey steven.goundrey@gwasg.cymru.ac.uk. Rhaid i bob cais ddod i law erbyn **y dyddiad cau, 7 Medi 2021**.

Os na fydd ymgeiswyr wedi derbyn gwahoddiad i gyfweiliad o fewn mis i'r dyddiad cau, dylent ystyried i'w cais fod yn aflwyddiannus.

MAE'R BRIFYSGOL YN GYFLOGWR CYFLE CYFARTAL